Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 45/2023
Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2023

# Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n **fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw**?

Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 26

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau'r Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd yn 2021-22. Mae'n diweddaru'r dadansoddiad blaenorol a oedd yn seiliedig ar ganlyniadau 2018-19. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg hapsampl, graddfa fawr, parhaus sy'n cwmpasu pobl ledled Cymru. Cyn i bandemig y coronafeirws (COVID-19) ddechrau ym mis Mawrth 2020, roedd yr arolwg yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yng nghartrefi pobl; ers mis Ebrill 2020, mae wedi'i gynnal dros y ffôn yn hytrach (gydag adran ar-lein ar gyfer rhai ymatebwyr). O ganlyniad i'r gwahaniaeth yn y dull a newidiadau posibl oherwydd y pandemig, dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau uniongyrchol â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu rhai ffactorau sy'n gysylltiedig ag a oedd pobl yn fodlon ar eu hardal leol. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn mesur i ba raddau y mae unigolyn yn fodlon ar ei ardal leol gan ddefnyddio graddfa gytuno pum pwynt. Ystyrir bod yr unigolion hynny sy'n ateb naill ai 'bodlon iawn' neu 'eithaf bodlon' yn fodlon.

## Prif ganfyddiadau

Gan gadw ffactorau eraill yn gyson[1], canfuwyd bod y ffactorau isod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.

- Ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol.
- Teimlo bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.
- Teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu, ac wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn eu hardal leol gyda'r nos.
- Bodlon ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr ardal leol.
- Byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y wlad, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- Byw mewn ardal wledig.
- Dim problem sbwriel yn yr ardal.

[1] Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau yn y gwaith dadansoddi hwn. Felly, hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (ee iechyd cyffredinol ac oedran), gellir archwilio'r cysylltiad rhwng pob ffactor a chanran y bobl sy'n teimlo bod gan eu hardal leol ymdeimlad o gymuned yn annibynnol.

- Byw yn Sir Ddinbych, yn Sir Fynwy neu ym Mhowys; o'i gymharu â byw yng Nghastell-nedd Port Talbot, ym Mlaenau Gwent neu yng Nghasnewydd.
- Cael lefel uchel iawn o fodlonrwydd ar fywyd.

Rhestrir y ffactorau eraill a oedd wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad, y canfuwyd nad oeddent yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol yn Adran 5. Fel sy'n wir am bob dadansoddiad fel hyn, nid ydym yn gallu priodoli achos nac effaith ffactorau nad ydynt wedi cael eu mesur yn yr arolwg, na chaniatáu ar gyfer hynny.

## Cynnwys

1. Y Cefndir ..................................................................................................................4

2. Y cwestiwn a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol ..............................................4

3. Dull dadansoddi ........................................................................................................5

4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig ag yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol .......................5

5. Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw 9


6. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil ..................................................10

## 1. Y Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am dargedau a materion hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau a rhanddeiliaid, a dilyn dull mwy cydlynol a chydgysylltiedig o wneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni, mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith o nodau llesiant[2] (Ffigur 1).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu dangosyddion cenedlaethol sy'n mesur sut mae'r nodau llesiant yn cael eu cyflawni. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn mesur cynnydd yn erbyn 15 o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Roedd yr arolwg yn 2021-22 yn cynnwys cyfweliadau ffôn gyda hapsampl o dros 12,000 o bobl o bob cwr o Gymru.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Ddangosydd Cenedlaethol 26: 'Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw'.




**Ffigur 1.** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: saith nod llesiant[2].

## 2. Y cwestiwn a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol

Casglwyd gwybodaeth a oedd yn berthnasol i Ddangosydd Cenedlaethol 26 drwy ofyn i'r rhai a oedd yn ateb yr Arolwg Cenedlaethol i ba raddau roeddent yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol. Defnyddiwyd graddfa Likert gyda phum pwynt, a oedd yn amrywio o '1 = bodlon iawn' i '5 = anfodlon iawn'. Ar gyfer y gwaith dadansoddi yn yr adroddiad hwn, cafodd yr ymatebwyr a atebodd 'bodlon iawn' neu 'eithaf bodlon' eu grwpio gyda'i gilydd. Yn yr un modd, cafodd yr ymatebwyr a atebodd 'anfodlon iawn', 'eithaf anfodlon', neu 'ddim yn fodlon nac yn anfodlon' eu grwpio gyda'i gilydd.

Roedd cyfanswm o 89% o oedolion yn fodlon ar eu hardal leol. Mae hyn yn gyson â'r canlyniadau a ganfuwyd yn 2020-21 a 2018-19.

---

[2] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion, sydd ar gael ar-lein.

## 3. Dull dadansoddi

Er mwyn deall yn iawn sut mae ffactorau penodol yn cyfrannu at a yw pobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol, defnyddiwyd techneg ystadegol[3] i archwilio'r cysylltiad[4] rhwng pob ffactor a bodlonrwydd ar yr ardal leol, gan gadw pob ffactor arall yn gyson. Mae cadw ffactorau eraill yn gyson (cyfeirir at hyn fel rheoli ffactorau eraill hefyd) yn bwysig oherwydd mae'n caniatáu inni edrych ar bob ffactor yn annibynnol (hy sicrhau nad oes ffactorau allanol yn dylanwadu ar yr effaith rydym yn ei mesur). Gallwn wedyn gael syniad llawer gwell o sut mae un ffactor unigol yn gysylltiedig â bodlonrwydd pobl ar eu hardal leol, heb ddylanwad ffactorau eraill.

### Cymhlethdod perthnasoedd rhwng ffactorau

Er mwyn deall y canlyniadau hyn, ni allwn bob amser fod yn sicr ynghylch pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol na pa ffactorau y mae pobl sy'n teimlo'n fodlon ar eu hardal leol yn effeithio arnynt. Mae'r berthynas hon yn amlwg yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol ar gyfer rhai ffactorau. Fodd bynnag, nid yw'r berthynas hon mor amlwg ar gyfer ffactorau eraill[5].

### Dehongli'r canlyniadau

Mae'r holl ffactorau a gyflwynir yn y siartiau yn yr adroddiad hwn yn rhagfynegyddion ystadegol arwyddocaol o bobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol, fel sydd wedi'i brofi gan y model atchweliad a ddewiswyd gennym. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio 'ymylon rhagfynegi' – sy'n cael eu cyflwyno fel canrannau (%) – i ddangos y tebygolrwydd o berthynas rhwng pob ffactor (gan gadw pob ffactor arall yn gyson) â'r newidyn dibynnol (pobl yn teimlo bod gan eu hardal leol ymdeimlad o gymuned). Mae'r canlyniadau yn dangos pa mor debygol yw un grŵp cyffredin o bobl â nodwedd a rennir (ee menywod) o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol, o'i gymharu â grŵp cyffredin arall o bobl â nodwedd wahanol a rennir (ee dynion) mewn un ffactor penodol (ee rhyw). Mae bariau ansicrwydd ar y siartiau yn dangos y cyfwng hyder o 95% ar gyfer yr ymylon rhagfynegi i bob grŵp. Mae bariau ansicrwydd sy'n gorgyffwrdd yn golygu nad yw'n glir o gwbl pa grŵp yn y ffactor yw'r mwyaf rhagfynegol, er bod y ffactor yn rhagfynegydd arwyddocaol o bobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol.

## 4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig ag yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol

Roedd cyfanswm o 89% o'r rhai a atebodd yr Arolwg Cenedlaethol yn fodlon ar eu hardal leol. Mae'r ffigyrau isod yn dangos yr holl ffactorau unigol (gan gadw'r ffactorau eraill yn gyson) y canfuwyd a oedd yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol. Ym mhob ffactor, mae'r grŵp sydd â'r tebygolrwydd mwyaf (canran uchaf) o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol wedi'i amlygu mewn glas golau. Hefyd, gellir rhannu'r ffactorau esboniadol yn grwpiau â themâu yn unol â'r teitlau is-bennawd.

---

[3] Atchweliad logistaidd yw'r enw ar hyn. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr adroddiad methodoleg atchweliad a'r adroddiad technegol.


[4] Mae'r dadansoddiad hwn yn gallu dweud wrthym am debygoliaeth perthnasoedd rhwng ffactorau, ond ni all ddweud wrthym am berthnasoedd anffurfiol (ee byddai'n anghywir dweud bod teimlo'n anniogel yn eu hardal leol yn achosi i bobl deimlo'n fodlon gyda'u hardal leol).

[5] Gall y berthynas hon fod yn hyd yn oed yn mwy cymhleth, oherwydd gallai fod ffactorau eraill nad ydym wedi'u hystyried eto (ac nad ydynt ar gael gan yr Arolwg Cenedlaethol) a allai fod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anfodlon ar eu hardal leol ac yn teimlo'n anniogel.

## Cyfleusterau'r Ardal


### Bodlonrwydd ar wasanaethau a chyfleusterau lleol

Roedd pobl a oedd yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar eu gwasanaethau a'u cyfleusterau lleol yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar eu hardal leol, o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn fodlon.




### Amddifadedd ardal (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)


Roedd pobl sy'n byw yn y 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar eu hardal leol, o'i gymharu â phobl sy'n byw yn y 40% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.




## Cymuned


### P'un a yw pobl yn trin ei gilydd â pharch yn yr ardal leol

Pobl a oedd yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod pobl yn trin ei gilydd â pharch yn eu hardal leol oedd y rhai mwyaf tebygol o fod yn fodlon ar eu hardal leol.





### P'un a oes ganddynt ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol

Pobl a oedd yn cytuno'n gryf eu bod yn teimlo ymdeimlad o berthyn i'w hardal leol oedd y rhai mwyaf tebygol o fod yn fodlon ar eu hardal leol.



**Faint o broblem yw sbwriel yn yr ardal leol**


Pobl a oedd yn ystyried taflu sbwriel yn 'problem fawr' oedd y lleiaf tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol, o'i gymharu ag unrhyw ymateb arall i'r cwestiwn.




## Diogelwch


**P'un a ydynt yn teimlo'n ddiogel yn cerdded ar eu pen eu hunain ar ôl iddi dywyllu yn yr ardal leol**

Roedd pobl a oedd yn teimlo'n 'anniogel iawn' yn cerdded ar ôl iddi dywyllu yn eu hardal leol yn llai tebygol o fod yn fodlon ar eu hardal leol, o'i gymharu â phobl a oedd yn teimlo naill ai'n 'eithaf diogel' neu'n 'ddiogel iawn'.




**P'un a ydynt yn teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu**


Mae'r union berthynas rhwng teimlo'n ddiogel gartref a bodlonrwydd ar eu hardal leol yn parhau i fod yn aneglur.




## Llesiant

**Bodlonrwydd cyffredinol ar fywyd**


Pobl a gafodd sgôr bodlonrwydd ar fywyd uchel iawn oedd y grŵp mwyaf tebygol o deimlo'n fodlon ar yr hardal leol.



## Daearyddiaeth

### Byw mewn ardaloedd trefol neu wledig


Roedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar eu hardal leol, o'i gymharu â'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol.




## Awdurdod Lleol

### Yr awdurdod lleol lle y mae pobl yn byw

Pobl a oedd yn byw yn Sir Ddinbych, ym Mhowys neu yn Sir Fynwy oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol, tra'r rhai a oedd yn byw yng Nghasnewydd, ym Mlaenau Gwent neu yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd y lleiaf tebygol o deimlo'n fodlon.



## 5. Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn teimlo’n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw

Yn y dadansoddiad hwn, roedd ffactorau eraill wedi’u cynnwys yn ein model atchweliad, ond ni wnaethom ganfod cysylltiad rhwng y ffactorau canlynol a phobl yn teimlo’n fodlon ar eu hardal leol:

- Rhyw.
- Ethnigrwydd.
- Crefydd.
- Oedran (yn ôl y grwpiau oedran 16-44, 45-64 a 65+).
- Statws priodasol.
- Math o aelwyd (deiliadaeth).
- Aelwyd yn cynnwys plant.
- A oes ganddynt gyflwr hirdymor cyfyngol.
- A oes ganddynt iechyd cyffredinol da.
- Ystyried tipio anghyfreithlon yn broblem yn yr ardal leol.
- Ystyried baw ci yn broblem yn yr ardal leol.
- Ystyried graffiti yn broblem yn yr ardal leol.
- Credu bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu’n dda yn yr ardal leol.
- Amlder mynd am droeon mwy na 10 munud o hyd.
- A oes gan yr aelwyd gar neu fan.
- Bod mewn amddifadedd materol.
- Gallu siarad Cymraeg.
- Teimlo’n ddiogel wrth deithio mewn car yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu.

## 6. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil

Yn gryno, rydym wedi dadansoddi ffactorau (a themâu cyffredinol) sy'n gysylltiedig â Dangosydd Cenedlaethol 26: 'Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw'. Ar y cyfan, daeth chwe thema ganolog i'r amlwg yn ein dadansoddiad:

1. Cyfleusterau'r ardal.
2. Cymuned.
3. Daearyddiaeth.
4. Diogelwch.
5. Llesiant.
6. Awdurdod lleol.

Mae'r berthynas rhwng ffactorau penodol a bodlonrwydd pobl ar yr ardal leol fel lle i fyw yn debygol o fod yn fwy cymhleth nag a awgrymir yn y dadansoddiad hwn, ac mae'n debygol o fod wedi'i dylanwadu gan ffactorau nad ydynt yn cael eu mesur yn yr Arolwg Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae llawer o'r ffactorau cysylltiedig a drafodwyd gyntaf yn yr adroddiad cynharach yn 2018-19 yn parhau'n wir yn dilyn dadansoddiad o ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol 2021-22. Gallai ymchwil bellach gynnwys mwy o ymchwiliadau ar raddfa fach sy'n cynnwys dulliau ansoddol[6] neu ddulliau cymysg[7].

[6] Defnyddir ymchwil ansoddol yn aml i ddeall rhesymau, safbwyntiau a chymhellion sylfaenol pobl er mwyn datgelu tueddiadau o safbwynt syniadau a barn pobl i ddeall mater penodol yn well. Yn aml, mae dulliau casglu data ansoddol yn cael eu cynnal ar raddfa fach ac yn casglu data nad ydynt yn rhifol drwy ddefnyddio technegau megis cyfweliadau a grwpiau ffocws. Ar y llaw arall, mae ymchwil feintiol yn ceisio deall problem drwy gasglu data rhifol y gellir eu defnyddio i gynnal dadansoddiadau ystadegol, yn aml i gynhyrchu canlyniadau cyffredinol ar gyfer sampl fawr o'r boblogaeth (ee agweddau, ymddygiadau, a safbwyntiau). Er enghraifft, dyma'r prif ddull a ddefnyddir gan Arolwg Cenedlaethol Cymru i gasglu a dadansoddi gwybodaeth.

[7] Mae mynd ati i ymchwilio gan ddefnyddio 'dulliau cymysg' yn cynnwys casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol fel rhan o'r un astudiaeth. Wrth i lunwyr polisïau, ymarferwyr, ac eraill mewn meysydd cymhwysol ymdrechu i lunio ymchwil sy'n seiliedig ar wybodaeth drwyadl ar sail sawl gwahanol fath o dystiolaeth (megis llesiant amlweddog cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol), gall ymchwil ar sail dulliau cymysg fod yn ffordd dda o ymchwilio i'r sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth hyn.

Awdur yr Adroddiad: Luke Naylor

ESRC ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm yr Arolwg Cenedlaethol
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: arolygon@llyw.cymru

---

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-80535-400-0